



DYSGU DRWY CHWARAE

Llwybr synhwyrdd

Mae cael eich plentyn i gerdded yn droednoeth ac archwilio'r gwahanol deimladau o dan draed yn hwyl ac yn eu hannog i archwilio gwrthrychau a bod yn fwy ymwybodol o'u synhwyrddau. Mae hefyd yn hwyl gwneud y llwybrau o'r pethau o amgylch y tŷ neu'r ardd.

Byddwch angen:

- Eitemau fel darn o garped, pom poms, peli gwllân cotwm, sbwng, cerrig crwn, tywod, paent
- Platiau papur i ddal y rhain (yn enwedig os ydych chi'n gwneud y gweithgaredd hwn dan do)

DYSGU DRWY CHWARAE - Llwybr synhwyaidd

Dull:

- Gallwch wneud hyn dan do neu yn yr awyr agored
- Rhowch bob eitem (neu grŵp o eitemau) mewn swp ar wahân ar y llawr (h.y. y gwllân cotwm i gyd gyda'i gilydd, ac ati)
- Rhowch nhw ar y platiau papur os ydych chi eisiau gwarchod y llawr oddi tanynt
- Mae angen i'r sypiau fod ar wahân ond o fewn hyd un cam i'ch plentyn
- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beth yn rhy finiog a all achosi niwed
- Unwaith y bydd eich llwybr yn barod, gofynnwch i'ch plentyn gerdded ar ei hyd ac anogwch nhw i ddisgrifio sut mae pob eitem yn teimlo

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn ysgogi synhwyrâu eich plentyn ac yn eu cychwyn ar siwrai amlsynhwyaidd



RHYBUDD:

Mae angen goruchwyliaeth ofalus gyda darnau bach!